**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: LG/05376/19

Mick Antoniw AM
Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
National Assembly for Wales
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

15 Chwefror 2019

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Chwefror ynglŷn â Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (SICM(5)18).

Roeddech am wybod pam na chafodd datganiad ysgrifenedig diwygiedig ei osod mewn perthynas â'r Offeryn Statudol hwn. Roedd hynny am ein bod yn teimlo nad oedd yn angenrheidiol er mwyn dwyn y gwelliant i sylw'r Pwyllgor. Roedd Memorandwm Cydsyniad yr Offeryn Statudol a'r llythyr atodol at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn nodi'n glir bod y newid wedi'i wneud. Dan Reol Sefydlog 30A cafodd yr Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, gan roi digon o gyfle i aelodau ystyried y testun terfynol.

Fel y nododd fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, yn ei llythyr atoch ar 7 Chwefror, os ydych yn teimlo y byddai'n fuddiol i dryloywder y broses, gallwn osod datganiadau ysgrifenedig diwygiedig pan fydd Offerynnau Statudol y DU yn cael eu tynnu'n ôl a'u hailosod ar gyfer gweddill rhaglen Offerynnau Statudol Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Rydym wedi derbyn eich adroddiad mewn perthynas â chraffu ar is-ddeddfwriaeth sy'n codi o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Byddwn yn ymateb i'r pwyntiau a godir, gan gynnwys y cynigion ar gyfer Memorandwm Cydsyniad yr Offeryn Statudol, maes o law.

Cofion,



**Lesley Griffiths AC**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.